



Aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd.Tai@senedd.cymru

13/11/2023

Annwyl aelodau'r Pwyllgor,

Ymgynghoriad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Mewn ymateb i sawl ymgynghoriad sy'n ymwneud â diwygio etholiadol yng Nghymru mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi nad oes gofyniad cyfreithiol i swyddogion canlyniadau drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Gwnaethom hynny fwyaf diweddar yn ein [hymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar weinyddu a diwygio etholiadol](#) gan nodi y dylai cyfrifoldeb y swyddog canlyniadau gael ei drosglwyddo i fod yn rhan o waith prif weithredwr statudol fel y byddai'r gweithgareddau etholiadol hyn yn dod o dan gwmpas safonau'r Gymraeg i awdurdodau lleol.

Mae sefyllfa'r Gymraeg yng ngweinyddiad etholiadau yn fater sydd wedi peri cryn bryder i ni, ac ar fwy nag un achlysur rydym wedi derbyn gohebiaeth yn mynegi anfodlonrwydd aelodau'r cyhoedd â'r driniaeth a roddwyd i'r Gymraeg yn nhrefniadau'r etholiadau yn eu hardaloedd hwy. Mae rhai o'r enghreifftiau sydd wedi dod i'n sylw yn cynnwys swyddog canlyniadau yn anfon gohebiaeth uniaith Saesneg ac yn methu â chyhoeddi canlyniadau yn Gymraeg. Yn sgil derbyn cwynion o'r fath cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ar weithrediad Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn 2017. Roedd yr adroddiad uchod yn ddilyniant i adroddiad a wnaeth yn ystyried Etholiadau Cyffredinol 2015. Pwrpas yr adroddiadau oedd ystyried y graddau yr oedd statws swyddogol y Gymraeg yn cael ei barchu yng ngweithrediad yr etholiadau hyn. Daeth yr adroddiad diweddaraf i'r casgliad na ellir datgan eto bod profiad siaradwyr Cymraeg yn gyfartal â phrofiad siaradwyr di-Gymraeg. Dylid nodi y credwn fod gweithredu rhai o argymhellion yr adroddiadau hyn wedi gwella'r sefyllfa rhywfaint, ac nad ydym wedi derbyn llawer o gwynion perthnasol yn dilyn etholiadau mwy diweddar.

Er efallai fod y sefyllfa wedi gwella, rydym yn dal o'r farn y dylid ystyried ffyrdd o ddileu'r anghysondeb nad yw swyddogion canlyniadau etholiadau yn destun unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn ystod y broses craffu ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn 2020 fe gyflwynwyd gwelliannau oedd â'r

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

bwriad o osod dyletswyddau cyfreithiol o ran defnydd y Gymraeg gan swyddogion canlyniadau etholiadau. Mewn ymateb i'r gwelliannau fe nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd ei bod yn cefnogi egwyddor y gwelliannau, a bod angen *'gwaith pellach gyda'r gymuned etholiadol gyfan ynghylch sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal drwy gydol y broses etholiadau'*. Nodwyd, fodd bynnag, fod yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn y gwelliannau yn rhan o *'ddarn llawer ehangach o waith sydd eisoes ar y gweill sy'n ymwneud â'r Bil gweinyddu etholiadol technegol y bydd angen ei gyflwyno yn y senedd nesaf.'* Nododd y Gweinidog bod *'angen cael hyn yn gywir drwy roi'r amser i sicrhau bod yr holl faterion angenrheidiol yn cael eu hystyried cyn dechrau gwneud darpariaeth deddfwriaethol'*.

Er bod y materion uchod wedi'u cynnwys fel rhan o'r drafodaeth yn y *Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol*, nid yw'r Bil arfaethedig yn gwneud dim darpariaeth mewn perthynas â hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ynghylch defnyddio'r Gymraeg, ac mae hefyd yn nodi y bydd darparu mwy o wasanaethau etholiadol yn Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Un ffordd o wneud hyn fyddai manteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn y Bil hwn i osod gofynion cyfreithiol ar swyddogion canlyniadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg